| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **27 MEDI 2010** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2010/11 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys wedi tanategu Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2010/11, ac mae'n cynnwys yr angen i:

- Greu a chynnal Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.
- Creu a chynnal Arferion Rheolaeth Trysorlys, sy'n nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion.
- Derbyn, gan yr Awdurdod, adroddiad strategol blynyddol am y flwyddyn i ddod ac adroddiad adolygiad blynyddol am y flwyddyn flaenorol.
- Derbyn cyfrifoldebau dirprwyedig gan yr awdurdod i weithredu a monitro polisïau ac arferion rheolaeth trysorlys ac i weithredu a gweinyddu penderfyniadau ynghylch rheolaeth trysorlys.

Ar 29 Mawrth gwnaeth y Pwyllgor Pensiynau gais i'r Cyngor i ganiatau i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

Mae'r Cod Ymarfer yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn felly'n sicrhau bod yr awdurdod hwn ynghyd a'r Gronfa Bensiwn yn croesawu Arfer Gorau yn unol ag argymhellion Cod Ymarfer CIPFA.

## 2. YR ECONOMI A DIGWYDDIADAU

Parhaodd y DU i oresgyn y dirwasgiad ond arhosodd lefel y gweithgarwch ymhell dan lefelau gweithgarwch cyn yr argyfwng. Adferiad eithaf bregus a gaed hyd yn hyn ac mae'n debygol y bydd tyfiant yn araf. Dangosodd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) dwf o ddim ond 0.3% yn chwarter cyntaf calendr 2010, ond cododd hynny i 1.1% yn ystod yr ail chwarter.

Mae chwyddiant prisiau defnyddwyr wedi aros gryn dipyn uwchben lefel darged Banc Lloegr o 2%, gan gyrraedd brig o 3.7% ym mis Ebrill. Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o un flwyddyn i'r llall yng Ngorffennaf 2010 yn 3.1%, a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn 4.8%. Mae'n debyg mai effeithiau byrdymor yw'r rheswm am y gyfradd uwch a disgwylir i chwyddiant ostwng yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau disgynnol o ganlyniad i gyfleusterau cyfalaf dros ben.

Mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr wedi cadw'r Gyfradd Banc ar 0.5% ac wedi rhyddhau gwerth £200 biliwn i'r economi.

Cafwyd gwared â'r ansicrwydd ynghylch canlyniad senedd grog yn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai wrth ffurfio clymblaid yn llwyddiannus. Gosododd Cyllideb Frys y llywodraeth newydd gamau gweithredu caled i ymateb i ddiffyg yng nghyllideb y DU, gan anelu i ddileu'r diffyg strwythurol erbyn 2014/15. Caiff hyn ei gyflawni drwy fesurau llym - toriadau o £32 biliwn mewn gwariant a gwir gynnydd o £8 biliwn mewn trethi. Ymddengys y bydd y lefelau disgwyliedig o doriadau gwariant a chynnydd mewn trethi yn ddigon i leddfu pryder diweddar am ddisgwyliadau ynghylch chwyddiant. Felly, roedd y neges 'cyfraddau is am lawer hwy' yn parhau i fod yn berthnasol.

Cadwodd Cronfa Ffederal yr UD eu cyfraddau ar 0.25% ac mae Banc Canolog Ewrop wedi cynnal cyfraddau o 1%. Roedd y prif bryderon parhaus yn Ewrop yn amrywio o wendid sofran, i ddyledion sofran a chorfforaethol ym Mhortiwgal, yr Eidal, Iwerddon, Groeg a Sbaen, a'r risg i hyn ymledu i wledydd eraill.

## 3. RHEOLI DYLEDION

| DYLEDION | Balans ar 01/04/10 £'000 | Llai: Dyledion Aeddfed £'000 | Llai: Dyledion a ad-dalwyd £'000 | Ychwanegu: Benthyciadau Newydd £'000 | Balans disgwyliedig ar 30/09/10 £'000 | Lleihad mewn Benthyciadau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | **137,532** | 4,587 | 14,118 | 0 | **118,827** | 18,705 |

**Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT)** – Mae'r newid yn y portffolio dyledion ers 1 Ebrill wedi digwydd o ganlyniad i'r Cyngor yn trosglwyddo'r stoc tai ar 12 Ebrill 2010 i Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Yn dilyn y trosglwyddiad, cafodd rhan o bortffolio dyledion PWLB y Cyngor ei ad-dalu ar 15 Ebrill 2010. Roedd hyn yn cynnwys 12% o bob un o'r benthyciadau PWLB (ad-daliad o £14.118m) ynghyd a'r premiwm net cysylltiedig o £3.212m.

## 4. GWEITHGARWCH BUDDSODDI

Mae Arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yn blaenoriaethu diogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

**Buddsoddiadau**

| | Balans ar 01/04/10 £'000 | Ychwanegu: Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Llai: Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000 | Balans ar 31/08/10 £'000 | Cynnydd/ (Lleihad) mewn Buddsoddiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | **55,510** | 133,255 | 135,880 | **52,885** | (2,625) |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | **4,000** | 5,000 | 0 | **9,000** | 5,000 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **59,510** | **138,255** | **135,880** | **61,885** | **2,375** |

**Roedd diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor.** Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Cyngor sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2010/11. Roedd hyn yn cyfyngu buddsoddiadau newydd i'r hyn a ganlyn:

- Y Swyddfa Rheoli Dyledion
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA sydd gan werth net sefydlog i asedau
- Adnau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu'r DU sy'n bwysig i System Fancio y DU, ac sydd â statws hirdymor o 'A+' o leiaf, neu statws sy'n cyfateb i hynny, gan *Fitch, Moody's* a *Standard & Poor's*
- Adnau gyda Banciau penodol nad ydynt yn y DU (Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sbaen, Y Swistir ac UDA). Dewiswyd y gwledydd hyn, a'u Banciau, yn dilyn dadansoddi a monitro'r hyn a ganlyn:
    - Statws Credyd (statws hirdymor gwrthbarti o A+ o leiaf)
    - Amnewid Diffyg Credydau (*Credit Default Swaps*)
    - Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP); Dyledion net fel Canran o'r GDP
    - Mecanweithiau Cefnogi Sofran / cefnogaeth bosib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol
    - Pris Cyfranddaliadau

**Diweddariad Gwrthbartïon**
Yn dilyn yr amgylchiadau economaidd heriol sy'n wynebu Sbaen, pryderon am effaith costau cynyddol i ariannu dyledion, ac israddio statws sofran Sbaen i AA gan *Standard and Poor's*, mae'r Cyngor wedi atal adnau gyda banciau Sbaen ers 28 Ebrill 2010. Y ddau fanc Sbaeneg ar ein rhestr yw *Banco Bilbao Vizcaya Argenataria* a *Banco Santander* ac mae'r ataliad yn parhau.

Mae Santander UK Plc yn is-gwmni y mae Banco Santander yn berchennog llawn arno. Fodd bynnag, banc corfforedig yn y DU ydyw a chanddo drwydded fancio ei hun ar wahân, ac mae'n parhau i fod yn sefydliad awdurdodedig yn y DU. Er nad oes gan ArlingClose, ein ymgynghorwyr, unrhyw bryderon am Santander UK plc, ar y 28 Ebrill 2010 roeddent yn ein cynghori i gyfyngu buddsoddiadau gyda Santander UK plc i un mis. Fodd bynnag, ers hynny mae gwelliant wedi bod yn nangosyddion credyd Banco Santander. Ar y 24 Awst, cawsom ein cynghori gan ArlingClose y gellid cynyddu'r cyfyngiad buddsoddi o 1 mis i 6 mis. Maent yn dal i fonitro'r gwelliant yn nangosyddion credyd Santander UK plc ac os ydi hynny'n parhau dros y tri mis nesaf, yna byddent yn adfer y cyfyngiad ar gyfnod buddsoddi yn ôl i 12 mis. Aeddfedodd yr adnau diwethaf a wnaethom gyda Santander UK plc ar 31 Mawrth 2010.

Does gan y Cyngor ddim buddsoddiadau cyfredol gyda banciau nad ydynt yn y DU.

Er gwybodaeth, mae rhestr gyfredol o wrthbartion y Cyngor, fel ei diweddarwyd ar 6 Medi 2010, ynghlwm yn Atodiad A.

## 5. CYDYMFFURFIO A DANGOSYDDION DARBODUS

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r mwyafrif o'i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2010/11, a osodwyd ym mis Chwefror 2010 fel rhan o Ddatganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Gweler Atodiad B am fanylion.

## 6. RHAGOLYGON

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad gweithgarwch chwarterol hwn ym mis Medi 2010, roedd y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog fel a ganlyn:

| Cyfradd Swyddogol y Banc | Medi 2010 | Rhag 2010 | Maw 2010 | Mehe 2011 | Medi 2011 | Rhag 2011 | Maw 2012 | Mehe 2012 | Medi 2012 | Rhag 2012 | Maw 2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Risg Positif | - | - | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Yr Achos Canolog | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 1.00 | 1.25 | 1.50 | 2.00 | 2.50 | 2.75 |
| Risg Negatif | - | - | - | - | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |

Mae'r adferiad mewn twf yn debygol o fod yn araf ac anwastad.

Mae llwybr y cyfraddau sylfaenol yn adlewyrchu natur fregus yr economi fel y caiff ei hadfer, ac yn adlewyrchu tynhau arian y gyllideb frys ar raddfa sylweddol fwy. Gan fod twf a chwyddiant sylfaenol yn debygol o barhau i fod yn isel, bydd y Banc yn glynu wrth ei safiad ‘is am hwy’ ar gyfraddau polisi.

Bydd giltiau’n parhau i fod yn gyfnewidiol, yn enwedig yn y cyfnod yn dilyn yr etholiad.

Mae’r posibilrwydd i statws sofran y DU gael eu hisraddio wedi cilio, ond bydd y rhagolygon negyddol (S&P) yn parhau yn y cyfamser.

## 7. CRYNODEB

Mewn cydymffurfiaeth â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae’r adroddiad hwn yn rhoi adroddiad cryno o weithgarwch rheolaeth trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2010/11 i aelodau. Fel y dangosir yn yr adroddiad, ni thorrwyd unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus a mabwysiadwyd dull darbodus mewn perthynas â gweithgarwch buddsoddi, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd yn hytrach nag enillion.

## 8. GWYBODAETH ARALL

**Arweiniad Buddsoddi LlCC -** Daeth yr arweiniad diwygiedig i rym ar 1 Ebrill 2010. Roedd y canllawiau’n ategu’r angen i ganolbwyntio ar ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Argymhellwyd hefyd fod strategaethau yn cynnwys manylion ynghylch asesu risgiau credyd, rhesymau am fenthyca cyn bod angen ac ynghylch defnyddio cynghorwyr y trysorlys.

**Gosod Cyfraddau o fewn yr un Diwrnod gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) -** Ar 26 Ebrill 2010 cyflwynodd PWLB osodiadau cyfradd ddwywaith y dydd, am 9:30 ac am 12:30. Amlinellwyd hyn yng Nghylchlythyr 143. Cyhoeddwyd hefyd fod DMO/PWLB yn bwriadu cynyddu sawl gwaith y gosodir y gyfradd o fewn un diwrnod i dair gwaith y diwrnod yn y dyfodol agos. Disgwylir cyhoeddiad pellach ar hyn maes o law.

**ATODIAD A**

**RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD (fel ar 06/09/10)**

**Adneuon Cyfnod Penodol / Cyfrifon ar alw**

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £10m | Blwyddyn |
| **Y DU** | **Santander UK (oedd yn Abbey) Rhan o'r Grwp Banco Santander** | **£20m** | **6 MIS** |
| Y DU | Bank of Scotland/Lloyds | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Y DU | Barclays | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Y DU | Clydesdale | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Y DU | HSBC | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Y DU | Nationwide | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Y DU | Royal Bank of Scotland | £20m | **Cadw i flwyddyn** |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £5m | Blwyddyn |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £5m | Blwyddyn |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd | £5m | Blwyddyn |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £5m | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Montreal | £5m | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £5m | Blwyddyn |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £5m | Blwyddyn |
| Canada | Royal Bank of Canada | £5m | Blwyddyn |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £5m | Blwyddyn |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | BNP Paribas | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | Calyon (Credit Agricole Group) | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole SA | £5m | Blwyddyn |
| Yr Almaen | Deutsche Bank A | £5m | Blwyddyn |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £5m | Blwyddyn |
| **Sbaen** | **Banco Bilbao Vizcaya Argentaria** | **£5m** | **WEDI EU HATAL AM Y TRO** |
| **Sbaen** | **Banco Santander SA** | **£5m** | **WEDI EU HATAL AM Y TRO** |
| Y Swistir | Credit Suisse | £5m | Blwyddyn |
| UDA | JP Morgan | £5m | Blwyddyn |

1) Mae cyfyngiad o £20m ar fanciau sy'n rhan o'r un grwp.
2) Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda chyfyngiad o £10m mewn unrhyw wlad.

**Cronfeydd Marchnad Arian**

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU/Iwerddon | BlackRock | £5m | Hylifedd Dyddiol |
| Y DU/Iwerddon | Henderson | £5m | Hylifedd Dyddiol |
| Y DU/Iwerddon | Invesco | £5m | Hylifedd Dyddiol |
| Y DU/Iwerddon | Prime-Rate | £5m | Hylifedd Dyddiol |
| Y DU/Iwerddon | Henderson | £5m | Hylifedd Dyddiol |

**ATODIAD B**

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2010/11 hyd at 2012/13 yn y tabl isod:

| | **31/3/2010 Gwir £'000** | **31/3/2011 Amcan £'000** | **31/3/2012 Amcan £'000** | **31/3/2013 Amcan £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 162.0 | 150.3 | 157.0 | 158.2 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol a Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 137.5 | 118.7 | 113.9 | 112.6 |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **24.5** | **31.6** | **43.1** | **45.6** |

**Balansau a Chronfeydd**

Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd y Cyngor ar gyfer 2010/11 hyd at 2012/13 fel a ganlyn:

| | **31/3/2010 Gwir £000s** | **31/3/2011 Amcan £'000** | **31/3/2012 Amcan £'000** | **31/3/2013 Amcan £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Balansau a Chronfeydd | **44,411** | **39,400** | **36,300** | **33,300** |

**Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus**

**(a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £160m ar gyfer 2010/11.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2010/11 yn £135m.

Ni thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig yn ystod y cyfnod hyd at 30/09/10.

Fodd bynnag, aethpwyd dros y Ffin Weithredol o £135m am gyfnod rhwng 1 Ebrill a 15 Ebrill 2010, pan oedd benthyca yn £137.5m. Digwyddodd hyn oherwydd yr oedi fu yn y trosglwyddiad stoc tai. Roedd y strategaeth am 2010/11 wedi ei selio ar y tybiaeth bod y trosglwyddiad yn mynd i fod yn digwydd ar 29 Mawrth 2010, ac y byddai £14.1m o fenthyciadau'r PWLB wedi eu had-dalu erbyn 31 Mawrth 2010. Pe bai hyn wedi digwydd, byddai'n benthyciadau ar 1 Ebrill yn £123.4m ac mi fyddem wedi bod o fewn y Ffin. Yn anffodus oherwydd y gohiriad i'r trosglwyddiad, roedd yn anochel ein bod yn mynd dros y ffin tan i'r trosglwyddiad ddigwydd a'r ddyled o £14.1m gael ei had-dalu ar 15 Ebrill 2010. Ers hynny rydym wedi gweithredu o fewn y ffin weithredol a osodwyd.

**(b) Terfynau Uchaf ar gyfer Amlygiad i Gyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol**

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei amlygu i newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | **Terfynau ar gyfer 2010/11 %** |
|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% |
| Cydymffurfiad â'r Terfynau: | Oes |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% |
| Cydymffurfiad â'r Terfynau: | Oes |

(c) **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog**

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Amcan o % y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/10** | **Cydymffurfiad â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 25% | 0% | 3.72% | Oes |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 0.72% | Oes |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 16.20% | Oes |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 5.85% | Oes |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 73.51% | Oes |

**(d) Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod**

- Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu'r Cyngor i reoli'r risg sydd ynghlwm â buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod.
- Gosodwyd y terfyn ar gyfer 2010/11 ar £40m.
- Polisi'r Cyngor yw cadw aeddfeddiadau buddsoddi am hyd at uchafswm o 24 mis. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau am gyfnod hwy na 364 diwrnod yn ystod y cyfnod hwn.